# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Gwynedd

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Medi 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 489A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad | 4 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 7 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Gwynedd | 10 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft | 12 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ar 31 Mawrth 2012 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**2.** Yn unol â'r amserlen ragnodedig cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ar 30 Mehefin 2012. Rydym wedi cwblhau ein gwaith archwilio i raddau helaeth bellach ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn i'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Phennaeth Cyllid y Cyngor ac aelodau eraill o staff yr Adran Gyllid fel y bo'n berthnasol.

**3.** Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

**4.** **Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**5.** Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

## Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

**6.** Nodwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi gwybod i ni am y rhesymau dros beidio â'u cywiro.

#### Nid yw'r Cyngor wedi cydnabod rhwymedigaeth mewn perthynas â chapio ac ôl-ofal ar ei safleoedd gwaredu gwastraff

**7.** Mae gan y Cyngor rwymedigaeth mewn perthynas â chostau capio ac ôl-ofal ar safle gwaredu gwastraff Cilgwyn a'r celloedd sy'n llawn ar safleoedd Ffridd Rasus a Llwyn Isaf. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd y gost gychwynnol o gapio'r safleoedd yn £11.661 miliwn. Ar 31 Mawrth 2012, roedd y Cyngor wedi gwario £8.384 miliwn ar y gwaith sydd ei angen i gapio'r safle, gan adael balans o £3.277 miliwn.

**8.** Mae'r Cyngor wedi neilltuo £800,000 fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer y costau hyn. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â safon gyfrifyddu IAS37, dylai'r Cyngor fod wedi cronni'r ddarpariaeth lawn (o'r costau cychwynnol amcangyfrifedig) er mwyn cydnabod y rhwymedigaeth yn briodol yn natganiadau ariannol 2011-12. Yna byddem yn disgwyl i ddarpariaeth bellach gael ei sefydlu dros amser i fodloni'r ymrwymiadau ychwanegol sy'n codi wrth i gelloedd gweithredol ar safleoedd Ffridd Rasus a Llwyn Isaf gael eu llenwi.

**9.** Mae'r Cyngor wedi neilltuo adnoddau o fewn cronfeydd cyfalaf wrth gefn ac o fewn ei gyllidebau cyfalaf yn y dyfodol i dalu'r costau hyn. Dylai'r Cyngor wneud darpariaeth o £2.477 miliwn (£3.277 miliwn llai'r £800,000 a ddarparwyd eisoes), drwy drosglwyddo symiau a neilltuwyd eisoes yn y cronfeydd cyfalaf wrth gefn.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**10.** Mae camddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan reolwyr, ond y dylid tynnu eich sylw atynt, yn ein barn ni, oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**11.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi.

### Nodwyd un gwendid perthnasol gennym yn eich rheolaethau mewnol

**12.** Mae cysoniad cyfrif banc incwm y Cyngor ar 31 Mawrth 2012 yn cynnwys eitem fantoli nas nodwyd o £4,143, a ddatryswyd yn hwyr yn ffenestr yr archwiliad. Mae cysoniadau yn ffurfio elfen allweddol o sustem reolaeth ariannol mewnol y Cyngor, sy'n cael ei danseilio yn sylweddol os nad yw cysoniadau yn cael eu perfformio yn gywir ac nid yw gwahaniaethau heb esboniad yn cael eu clirio.

### Rydym wedi nodi un maes ar gyfer gwella o ran yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol

**13.** Yn gyffredinol, roedd y wybodaeth yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall.

**14.** Mae'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i falans y credydwyr gael ei ddosbarthu yn ôl natur y cyflenwr, er enghraifft, cyrff llywodraeth leol, awdurdodau lleol eraill ac endidau eraill. Nododd ein profion na fu adolygiad manwl o'r £15.5 miliwn o'r balans endidau 'arall' er mwyn sicrhau bod y dosbarthiad yn briodol. Yn dilyn adolygiad o'r balans nodwyd bod £5.6 miliwn wedi cael ei gamddosbarthu, ond mae bellach wedi ei gywiro yn y datganiadau ariannol. Mae angen i'r Cyngor sicrhau y caiff dosbarthiad balansau'r credydwyr ei adolygu a'i ddadansoddi'n briodol fel rhan o'r broses cau mewn blynyddoedd i ddod.

Mae un mater arall sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdano

**15.** Mae'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgelu manylion trafodion cysylltiedig â phartïon cysylltiedig yn ei gyfrifon. Er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol, ysgrifennodd y Cyngor at ei aelodau etholedig yn gofyn am fanylion buddiannau partïon cysylltiedig erbyn 11 Mai 2012. Ar adeg paratoi'r datganiadau ariannol drafft, nid oedd naw aelod wedi ymateb. Roedd 8 o ymatebion heb gael eu derbyn pan gyflwynwyd yr adroddiad hwn.

Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad

Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
27 Medi 2012

Annwyl Mr Barrett,

### SYLWADAU YN YMWNEUD Â DATGANIADAU ARIANNOL 2011/12

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

### SYLWADAU RHEOLI

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

#### Gwybodaeth a Roddir

Rydym wedi darparu'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i'r holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill; gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a chyswllt anghyfyngedig â staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac yn ymwneud â rheolaeth; cyflogeion sydd â rolau

arwyddocaol yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.

- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a wneir gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## SYLWADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a honiadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

Ynglŷn â rhan 12 o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, cadarnhaf erbyn hyn fod cysoniad cyfrif banc incwm y Cyngor ar 31 Mawrth 2012 wedi'i ddatrys a'i fantoli. Rydym yn cytuno gyda Swyddfa Archwilio Cymru fod cysoniadau o'r fath hyn yn ffurfio elfen allweddol o sustem reolaeth ariannol fewnol y Cyngor. Felly, rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod cysoniadau o'r fath hyn wedi'u cwblhau yn gywir ac yn brydlon yn ystod 2012/13.

## SAFLEOEDD GWAREDU GWASTRAFF – IAS 37

Mae'r archwiliwr yn ystyried nad ydym wedi cydsynio efo gofynion IAS 37 mewn perthynas â safleoedd gwaredu gwastraff Cilgwyn, Ffridd Rasus a Llwyn Isaf, a bod hyn felly wedi arwain at "camddatganiad", sydd angen i mi ei egluro.

Fe ddaeth gweithgareddau ar safle Cilgwyn, a weithredwyd yn flaenorol gan Gwmni Gwastraff Môn Arfon, i ben yn Rhagfyr 2008, gyda'r angen wedyn am waith capio ac adfer, ac sydd mewn dau brif rhan, sef, y rhan cychwynnol sydd yn y broses o gael ei wneud rŵan, a'r capio terfynol sydd nawr wedi ei raglennu ar gyfer 2027-28.

Ar gyfer y cyfnod 2006-07 i 2011-12, mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb cyfanswm o £11.164m tuag at waith ar y safleoedd gwaredu gwastraff, gyda £1.420m pellach wedi'i ymrwymo yn y Cynllun Rheoli Asedau dros y tair blynedd nesaf, yn gwneud cyfanswm buddsoddiad o £12.584m dros gyfnod o naw mlynedd.

Mae £8.807m wedi'i wario hyd at 31 Mawrth 2012, gyda £2.357m pellach wedi'i gadw yn y cyfrif Reserf Cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd llithriad yn y gwir rhaglen waith. Mae £800k pellach yn cael ei gadw n'ôl fel darpariaeth, yn gwneud cyfanswm yn ei gyfanrwydd o £11.964m.

Disgwylir gwaith pellach ar y rhan capio terfynol ar safle Cilgwyn yn 2027-28.

Yn ei gyfanrwydd, fe ystyrir hyn i fod yn sefyllfa resymol iawn i'r Cyngor ar yr amser arbennig yma.

## SYLWADAU GAN BWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD

Cydnabyddwn fod y sylwadau uchod, a wnaed gan y rheolwyr, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 27 Medi 2012.

Llofnodwyd gan:

DAFYDD L EDWARDS
PENNAETH CYLLID

Dyddiad: 27 Medi 2012

Llofnodwyd gan:

CYNGHORYDD TREFOR O EDWARDS
CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad: 27 Medi 2012

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Gwynedd

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalennau ... i ..., mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2012 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett**

**Archwilydd Penodedig**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd**

**CF11 9LJ**

**28 Medi 2012**

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Diwygio'r naratif | Rhagair Esboniadol - Datgeliad naratif ychwanegol wedi ei ychwanegu a mân newidiadau wedi eu gwneud i ddatgeliadau presennol. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac i sicrhau bod y datgeliadau yn y Rhagair yn cytuno â'r rhai yn y datganiadau ariannol. |
| £161,000 | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - dylid dangos costau nas dosberthir fel debyd i wariant yn hytrach nag incwm. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |
| Diwygio'r naratif | Polisïau cyfrifyddu - ychwanegwyd datgeliadau ychwanegol at:<br>1.4 Asedau Wrth Gefn<br>1.35 Cynllun Lwfansau Tirlenwi<br><br>Ychwanegwyd datgeliadau pellach:<br>1.36 I gadarnhau nad oes gan y Cyngor ran mewn unrhyw gynlluniau Menter Cyllid Preifat<br>1.37 Gweithrediadau ac Asedau a Reolir ar y Cyd<br>1.38 Cydnabod Refeniw o Drafodion nad ydynt yn rhai Cyfnewid | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |
| Diwygio'r naratif | Polisi cyfrifyddu 1.13 a Nodyn 16 Asedau Treftadaeth - trosglwyddwyd rhai datgeliadau yn y polisi Cyfrifyddu i'r nodyn yn y cyfrifon. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac i hysbysu'r darllenwr. |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 3 Addasiad Cyfnod Blaenorol, Nodyn 5 Dyfarniadau Pwysig wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu a Nodyn 7 Eitemau Perthnasol o Incwm a Gwariant - datgeliadau ychwanegol wedi'u hychwanegu at bob nodyn. | I hysbysu'r darllenwr. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Ffigurau wedi eu diwygio a<br>Diwygio'r naratif | Nodyn 9 Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan Reoliadau - diwygio ffigurau yn ymwneud â'r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol. Dim effaith ar y ffigurau net.<br>Diwygiadau i'r disgrifiadau naratif. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 10 Cronfeydd wedi'u Clustnodi Wrth Gefn - ychwanegwyd datgeliadau ychwanegol i gadarnhau bod cronfa wrth gefn Cronfa Gwella'r Cyngor wedi ei throsglwyddo i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed. | I hysbysu'r darllenwr. |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 12 Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddiadau - naratif ychwanegol i ategu'r symudiadau perthnasol mewn llog sy'n daladwy. | I hysbysu'r darllenwr. |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 15 Eiddo, Offer a Chyfarpar - datgeliad ychwanegol wedi ei ychwanegu i gadarnhau statws cyfredol ysgol Cae Top. | I hysbysu'r darllenwr. |
| £25,000<br><br><br><br><br>£8,000 | Nodyn 18 Offerynnau Ariannol - £20,000 - Ffigur symiau masnach taladwy tymor byr wedi ei ddiwygio, gan gynnwys ailddatgan ffigurau 2010-11 i roi cyfrif am rwymedigaethau gohiriedig yn ymwneud â phrydlesau cyllid (2010-11-£88,000).<br>£5,000 - Incwm Llog Enillion a Cholledion – ffigur wedi ei ddiwygio £5,000.<br>Gwerth teg o fenthyciadau byr-dymor a symiau derbyniadwy – ffigur wedi ei ddiwygio gan £8,000.<br>Canrannau ar gyfer Tabl Ad-daliadau Etifeddadwy - diwygiad i ganran mis Ionawr.<br>Naratifau wedi eu diwygio i ystyried y newidiadau. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 19 Stocrestrau - dilëwyd y cyfeiriad at Asedau a Ddaliwyd i'w Gwerthu gan fod y balans hwn wedi ei ddatgelu yn nodyn 22. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| (Cyfanswm y diwygiad) - £2,501,000 | Nodyn 20 Dyledwyr Tymor Byr –<br>Cywiro ac ailddosbarthu dyledwyr (buddsoddiadau tymor byr a chredydwyr tymor byr) | I gywiro cam-godio ac i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |
| (Cyfanswm y diwygiad) - £2,493,000 | Nodyn 23 Credydwyr Tymor Byr<br>Cywiro ac ailddosbarthu credydwyr (dyledwyr tymor byr) | I gywiro cam-godio ac i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |
| Y ffigurau wedi eu diwygio i adlewyrchu'n gywir y newidiadau o ran Unedau Masnachu | Nodyn 30 - Cofnodi Segmentaidd<br>Datgeliadau diwygiedig yn ymwneud â chywiriad Gwasanaethau Cymdeithasol ac addasiad Gweithrediadau Masnachu. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |
| £9,336,000 | Nodyn 36 - Incwm Grant<br>Cyfrif incwm grant ddwywaith - sawl grant wedi ei restru gan yr adran Amgylcheddol "Wedi eu Credydu i Wasanaethau: Grantiau Eraill" hefyd wedi eu rhestru fel "Grantiau Cyfalaf". | I gywiro cofnodion a oedd wedi cael eu cyfrif ddwywaith yn y nodyn. |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 37 Partïon Cysylltiedig<br>Naratif wedi ei ychwanegu i nodi nad oedd nifer o aelodau Etholedig wedi cwblhau ffurflen.<br>Gwybodaeth CBAC wedi ei diwygio i fformat tabl fel datgeliadau eraill.  Nid oedd balans credydwr o £1,611 wedi ei ddatgelu. | |
| Ffigurau wedi eu diwygio | Nodyn 41 - Pecynnau Ymadael<br>Diwygiad i fandio - cynhwyswyd dau gofnod ar gyfer unigolyn. | I gywiro'r cam-godio. |
| Diwygiwyd y naratif | Nodyn 44 - Rhwymedigaethau Wrth Gefn<br>Datgeliad ychwanegol mewn perthynas â Municipal Mutual Insurance. | I hysbysu'r darllenwr. |
| Diwygio'r naratif | Nodyn 45 - Ymddiriedolaethau<br>Newid i gyflwyniad y nodyn. | I gydymffurfio â'r Cod Ymarfer. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk